CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER.*

WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* **06.09.19**

CROESO - *WELCOME*

Braf iawn oedd croesawu pawb i'r ysgol fore Mawrth yn dilyn gwyliau'r haf. Mae'r disgyblion newydd wedi ymgyfarwyddo'n dda â'r ysgol, ac edrychwn ymlaen at groesawu gweddill o'r plant bach Meithrin yn ystod y dyddiau nesaf. Cyfanswm nifer disgyblion yr ysgol ar ddechrau'r flwyddyn newydd yw 339 – sy'n gynnydd sylweddol o'r hyn ydoedd y llynedd.

It was great to welcome everyone following the summer holiday, on Tuesday morning. The new pupils have settled in well, and we shall look forward to welcoming the rest of the Nursery pupils during the next few days. The total number of pupils on roll at the beginning of the new academic year is 339 – with a substantial increase on the last year.

ADDYSG UWCHRADD – *SECONDARY EDUCATION.*

Dymunir y gorau i'n cyn ddisgyblion sydd wedi dechrau mewn addysg uwchradd yr wythnos hon hefyd. Llongyfarchiadau i'n cyn ddisgyblion ar eu canlyniadau yn yr arholiadau allanol ar ddiwedd y flwyddyn addysgol ddiwethaf hefyd. Ymfalchiwn yn llwyddiant ein cyn ddisgyblion bob amser.

We wish our past pupils who commenced their secondary education this week, all the very best for the future. We also congratulate our past pupils on their external examination results at the end of the last academic year. We are always very proud of our past pupils' successes.

GRANT Y CYNULLIAD – *ASSEMBLY GRANT.*

Er gwybodaeth i chi, mae'r Cyngor Sir wedi cyflwyno cynlluniau i ni ar gyfer yr estyniad arfaethedig yma yn Ysgol Glanrafon. Ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau hynny yn cael eu hystyried gan y staff a'r Corff Llywodraethol. Bydd gofyn i ni roi adborth arnynt erbyn diwedd mis Medi, cyn i'r Awdurdod apwyntio contractwyr ar gyfer y gwaith. Nid oes unrhyw ddyddiad pendant wedi'i roi ar hyn o bryd ar gyfer dechrau ar y gwaith. Byddaf yn eich hysbysu am unrhyw ddatblygiadau pellach fel y byddant yn digwydd.

For your information, the Authority has presented the plans for the proposed extension here at Ysgol Glanrafon. At the moment, these plans are being considered by the staff and Governing Body. We need to respond to the plans by the end of September, before the Authority will go ahead with appointing contractors to carry out the work. No exact date has been given as to when the work will commence. I shall inform you of any further developments as they occur.

BWLETIN TYMOR YR HYDREF – *AUTUMN TERM'S BULLETIN.*

Bwriedir anfon y Bwletin am y tymor cyfredol allan i'ch sylw cyn gynted fyth ag sydd yn bosib, fel y gellwch dderbyn y wybodaeth angenrheidiol mewn da bryd am ddigwyddiadau

fydd yn cymryd lle yn ystod y tymor hwn. Bydd hwnnw hefyd yn cynnwys gwybodaeth am faterion cyffredinol sy'n effeithio ar fywyd o ddydd i ddydd yr ysgol.

It is intended to send out the Bulletin for the current term for your attention as soon as is possible, so that you will receive the required information in good time for events that will be taking place during this term. The Bulletin will also include general information regarding matters which are relevant to the day to day running of the school.

DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S EVENTS.*

09.09.19	Arddangosiad ffensio i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 – *Fencing demonstration for K.S 2 pupils.*
09.09.19	Clwb Pêl droed yn ail ddechrau i ddisgyblion C.All. 2 – 3.15 – 4.15 p.m. – *After school football club re-commences for Key Stage 2 pupils – 3.15 – 4.15 p.m.*
11.09.19	Clwb Chwaraeon newydd yn cychwyn – *New sports club commences* – 3.15 – 4.30 p.m.
12.09.19	Clwb Pêl droed yn ail ddechrau i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 – *After school football club re-commences for Years 1 and 2 pupils* – 3.15 – 4.15 p.m.
16.09.19	Dathlu Diwrnod Owain Glyndŵr *Celebration Day* – mwy o fanylion i ddod yn y Bwletin – *more details to appear in the Bulletin.*
16.09.19	Pnawn Cymdeithasol yn y Neuadd – mwy o fanylion i ddod yn y Bwletin - *Social afternoon in the hall – more details in the Bulletin.*

BWYDLEN YR WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S MENU:*

WYTHNOS/*WEEK* 3